# COMMUNITY OWNERSHIP AND COMMUNITY BENEFIT
# PERCHNOGAETH GYMUNEDOL A BUDD CYMUNEDOL



**We are grateful for the feedback received at the first and second phases of consultation on the initial proposal for Y Bryn, specifically the comments in relation to our proposed approach to community benefit and community ownership – both of which are a high priority for the project.**

**Rydym yn ddiolchgar am yr adborth a gawsom yn ystod cam cyntaf a'r ail gam o ymgynghori ynghylch y cynnig gwreiddiol i ddatblygu Y Bryn, yn enwedig y sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o ymdrin â budd cymunedol a pherchnogaeth gymunedol, dwy elfen sydd ymhlith blaenoriaethau pennaf y prosiect.**

Awel y Bryn Co-op

The project has reached agreement to establish the 'Awel y Bryn Co-op', alongside Awel Aman Tawe (AAT), Neath Port Talbot Council for Voluntary Service (NPTCVS) and Bridgend Association of Voluntary Organisations (BAVO) which will enable the Community Ownership Scheme and Benefit Fund.

We have committed to delivering £8,000/MW (per Mega Watt) to the community benefit fund, which could be in the region of £1million per year for the lifetime of the project.

The Co-op will also offer a stake of up to 20% for local ownership (10% local individuals and community groups, and 10% for public sector bodies to invest in).

Mae'r prosiect wedi dod i gytundeb i sefydlu 'Cydweithfa Awel y Bryn' ar y cyd ag Awel Aman Tawe (AAT), Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) a fydd yn galluogi 'r Cynllun Perchnogaeth Gymunedol a'r Gronfa Budd Cymunedol.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu £8,000/MW (fesul Mega Watt) i'r gronfa budd cymunedol, a gallai hynny olygu oddeutu £1 miliwn y flwyddyn yn ystod oes y prosiect.

Bydd y Gydweithfa hefyd yn cynnig cyfran o hyd at 20% ar gyfer perchnogaeth leol (10% ar gyfer unigolion a grwpiau cymunedol lleol, a 10% i gyrff y sector cyhoeddus fuddsoddi ynddynt).



## Community Benefit

If the project is approved, the new 'Awel y Bryn Co-op' will have a contractual relationship with NPTCVS and BAVO to manage the community benefit funds.

The industry leading Community Benefit Fund could total upwards of £1million per year for the lifetime of the Project – one of the largest community benefit funds in the UK from an onshore wind project of this nature.

To find out more about NPTCVS please visit:
**www.nptcvs.wales**

To find out more about BAVO, please visit:
**www.bavo.org.uk**

## Budd Cymunedol

Os bydd y prosiect yn cael ei gymeradwyo, bydd gan 'Gydweithfa Awel y Bryn' newydd berthynas gytundebol â NPTCVS a BAVO i reoli'r cronfeydd budd cymunedol.

Gallai'r Gronfa Budd Cymunedol arloesol hon sicrhau hyd at £1miliwn y flwyddyn yn ystod oes y Prosiect – un o'r cronfeydd budd cymunedol mwyaf yn y DU yn deillio o brosiect gwynt ar y tir o'r natur hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am NPTCVS, ewch i:
**www.nptcvs.wales**

I gael rhagor o wybodaeth am BAVO, ewch i:
**www.bavo.org.uk**



Image of wind turbine for indicative purposes only

## Community Ownership

Through Awel y Bryn Co-op, up to a fifth of the Project will be available for community and public sector ownership, which will contribute greatly to Welsh Government targets of having at least 1GW of renewable energy in community ownership by 2030 and 1.5GW by 2035. Given the nature of the project, the Y Bryn ownership model would be one of the largest part-owned community projects in the UK.

Local people would benefit both financially as well as socially through the good causes that the Co-op would support. To find out more about AAT, please visit:
**www.awelamantawe.org.uk**

## Perchnogaeth Gymunedol

Trwy Gydweithfa Awel y Bryn, bydd hyd at un rhan o bump o'r Prosiect ar gael ar gyfer perchnogaeth gymunedol a gan y sector cyhoeddus, a bydd hynny'n cyfrannu'n sylweddol at dargedau Llywodraeth Cymru i sicrhau o leiaf 1GW o ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth gymunedol erbyn 2030 a 1.5GW erbyn 2035. Gan ystyried natur y prosiect, model perchnogaeth Y Bryn fyddai un o'r prosiectau cymunedol rhan-berchnogaeth mwyaf yn y DU.

Buasai pobl leol yn elwa yn ariannol ac yn gymdeithasol trwy gyfrwng yr achosion da y buasai'r Gydweithfa yn eu cefnogi. I ddysgu rhagor am AAT, ewch i:
**www.awelamantawe.org.uk**

## To get in touch or find out more:

**info@ybryn-windfarm.cymru** **0800 699 0081 *(Freephone)*** **www.ybryn-windfarm.cymru** **@ybrynwindfarm**